*-Celebrating 100 years-*

# RUTHIN FARMERS AUCTION COMPANY LIMITED

Parc Glasdir,Rhuthun,LL15 1PB
01824705000

*"The Company that gives a service beyond the selling"*

***First of All, on behalf of Ruthin Farmers Auction, A Happy and Healthy New year to you all!***

***2020 has been very much a year of mixed emotions. The pandemic has caused absolute mayhem throughout the world and hit each sector in different ways but more so, forced us to stay away from family and friends with a view of controlling the virus. Our thoughts are with everyone who has been affected by Covid 19. Let 's hope that now with the introduction of the vaccine that in 2021 we can start to see some normality later in the year.***

As a company we have been forced to implement a "drop & go" system, which is far from ideal. As Livestock producers, we appreciate the hard work you put in to achieving the best from your individual systems and to leave your produce at the market without being able to proudly stand with your livestock has not been easy. We would therefore like to thank you for your cooperation and continued cooperation during this time and hope we can all stay safe.

Brexit cast a cloud of tariff threats and other associated worries upon the new year but so far, 2021 trade in most sectors here at the market has set off all guns blazing.

Prime Hogget trade over the previous weeks has hit averages in excess of 270ppk and beef and store cattle prices have started excellently. Long may it continue!

It's unfortunate, but for the sake of everyone's health, we must for the time being continue to run the drop and go system. We shall continue to text the prices through to you after the sale so if you don't get the text please contact the market office or one of the auctioneers so we can input this on our system. We also ask that anyone looking to purchase, to contact us to pre register. It's not a must for you to contact us if you have livestock to sell,but on the other hand,it's very useful to pre notify your entry with one of the auctioneers, giving us the opportunity to get in touch with the buyers with estimated numbers and what we have to offer. The quality and quantity of livestock exhibited is a credit to you as a producer and it's what ensures our buyers continue to enquire about the stock from week to week.





Remember, you can also send in a picture or two so we can advertise your stock online prior to sale! Ruthin Livestock Market is here to provide a service for the agricultural community and we pride ourselves on the service we offer 'beyond the selling', so please feel free to contact us anytime to help us do the best for you.

So, if you have stock to sell, here's the details of when to sell and who to contact:-

**Glyn Owens 07867977703 - Prime Cattle, Store Cattle, Cows&Calves, Barrens, Bulls**
**Paul Roberts 07867977702 - Cull Ewes, Breeding Ewes, Ewe&Lamb Couples ,In lamb Ewes, Implement Sales**
**Elfor Morris 07867977705 - Prime Lambs,Breeding Ewe lambs,Store Pigs**
**Rich Lloyd 07557230777- Prime Lambs,Store Lambs,Breeding Ewe lambs,Produce**
**Dafydd Parry 07780924460 - Calves,Weanling Cattle,Prime Cattle,Vintage Items Auction**

**For enquiries regarding Pedigree & Society Sales please contact the market office to be directed to the appropriate auctioneer.**
**Market Office 01824704555**

**Tuesday-** Prime Lambs/Hoggetts,Cull Ewes and Rams,Prime Cattle,OTMs

**Thursday-** Store Cattle,Cows&Calves,Breeding Ewes(seasonal),Breeding Ewe Lambs(seasonal),
In lamb Ewes(seasonal), Calves,Weanling Cattle,Store Lambs,Couples(Seasonal),Produce

**Friday-** Prime Lambs/Hoggetts,Cull Ewes, Store Pigs(every 1st Friday of the month)

As some of you know 2020 was to be a big year for Ruthin Farmers Auction as we celebrate 100 years! Unfortunately with the outbreak of COVID-19 , our plans to celebrate and hold various concerts and events were to put on hold as we all concentrated on what has been a logistically hard year to keep the Market Running as smoothly as possible under the circumstances. However, please keep an eye out on our social media, journals, press and our website as we look forward to celebrating at some point when we hopefully see the last of the virus.

Last, but certainly not least, we must say thank you to two highly regarded members of staff.

Mr Emyr Lloyd, one of the managers here at Ruthin Farmers Auction has decided to rest the gavel and retire. Emyr has been a valued auctioneer here for nearly 50 years, his dedication over the years has been second to none and we wish him all the very best and an enjoyable and healthy retirement. Thank You Emyr.

Also, after over 40 years Mr John Dryhurst Roberts has decided it is time to retire from his grading role here at Ruthin. John has ensured the consistent quality of lambs here over the years and we thank him for his service. Thank You John.

So, on behalf of us all here at Ruthin Farmers Auction, Thank you again for your continued support, cooperation and see you all soon.





www.ruthinfarmers.co.uk

*-Dathlu 100 mlwyddiant-*

RUTHIN FARMERS
— AUCTION —
COMPANY LIMITED

Parc Glasdir,Rhuthun,LL15 1PB

01824705000

*"Y Cwmni sy'n rhoi gwasanaeth tu hwnt i'r gwerthu."*

***Yn gyntaf ar ran Cwmni Arwerthwyr Ffermwyr Rhuthun gawn ni ddymuno Blwyddyn Newydd Dda a iach i bawb!***

***Mi roedd 2020 yn flwyddyn llawn o emosiynau cymysg. Mae'r pandemic wedi achosi anrhefn drwy'r byd ac wedi amharu ar pob sector mewn gwahanol ffyrdd ond yn fwy na hynnu mae wedi ein gorfodi i gadw'i ffwrdd oddi wrth ein teulu a'n ffridiau gyda gobaith y cawn reoli'r firws. Anfonwn ein cofion at bawb sydd wedi eu heffeithio mewn unrhyw ffordd gan y Covid 19.Mawr obeithiwn rwan gyda'r brechlyn yn cael ei gyflwyno y cawn weld normalrwydd yn dechrau dod yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn.***

Fel cwmni rydym wedi cael ein gorfodi i weithredu system "drop & go",sydd ymhell o fod yn ddelfrydol. Fel cynhyrchwyr da byw,rydym yn gwerthfawrogi y gwaith caled yr ydych yn ei gyflawni i gael y gorau o'ch system ffarmio unigol, a tydi gadael eich cynnyrch yn y farchnad heb gael sefyll gyda balchder gyda'ch anifieiliaid ddim wedi bod yn hawdd.Hoffem felly ddiolch o galon am eich cydweithrediad â'ch cydweithrediad parhaus yn ystod yr amser yma, mawr obeithiwn y byddwn i gyd yn aros yn saff.

Mae 'Brecsit' wedi bwrw cwmwl o fygythiadau tariff a phryderon cysylltiedig eraill ar y flwyddyn newydd,ond hyd yn hyn yn 2021 mae'r fasnach yn rhan fwyaf o'r sectorau yn ein marchnad wedi dechrau i ffwrdd yn gryf iawn.

Mae prisiau'r 'Hoggetts' dros yr wythnosau ddiwethaf wedi cyrraedd cyfartaledd yn fwy na 270 ceiniog y kilo a phrisiau eidion a gwartheg stor wedi dechrau'n ardderchog. Hir y parhed hyn!

Mae'n anffodus,ond er mwyn iechyd pawb mae'n rhaid i ni am y tro barhau i redeg y system"drop&go". Byddwn yn parhau i anfon neges destun atoch ar ôl y gwerthiant,felly os nad ydych ar hyn o bryd yn derbyn neges destun cysylltwch â swyddfa'r farchnad neu un o'r Arwerthwyr fel y gallwn fewnbynnu eich rhif ar ein system. Gofynnwn hefyd i unrhyw un sy'n bwriadu prynu gysylltu â ni i gofrestru ymlaen llaw. Nid yw'n angenrheidiol ichi gysylltu gyda ni os oes gennych dda byw i'w werthu,ond ar y llaw arall mae'n ddefnyddiol iawn hysbysebu eich da byw ymlaen llaw gyda un o'r Arwerthwyr gan roi cyfle inni gysylltu â'r prynwyr gyda amcangyfrif o niferoedd a'r hyn sydd gennym i'w gynnig. Mae safon a niferoedd y da byw sy'n cael eu harddangos yn glod i chi fel cynhyrchwyr,dyma sy'n sicrhau fod ein prynwyr yn parhau i ymholi o wythnos i wythnos.





Cofiwch y medrwch yrru llun neu ddau neu fidio inni fel y gallwn hysbysebu eich da byw ar lein cyn yr arwerthiant. Mae Marchnad da byw Rhuthun yma i ddarparu gwasanaeth i'r gymuned amaethyddol, Rydym yn ymfalchio yn y gwasanaeth rydym yn ei gynnig y tu hwnt i'r gwerthu felly mae croeso ichi gysylltu â ni ar unrhyw adeg i'n helpu i wneud y gorau ichi.

Felly os oes gennych dda byw i'w werthu dyma fanylion pryd i werthu a phwy i gysylltu âg o -:

**Glyn Owens 07867977703-Gwartheg tew, Gwartheg Stôr, Gwartheg a lloi.**

**Paul Roberts 07867977702-Hen ddefaid, Cyplau, Defaid Magu, Defaid Cyfeb, Arwethiant Peiriannau**

**Elfor Morris 07867977705-Wyn Tew,Moch Stôr,Wyn benyw i fagu**

**Rich Lloyd 07557230777-Wyn tew, Wyn Stôr, Wyn benyw i fagu, Cynnyrch**

**Dafydd Parry 07780924460-Lloi, Lloi wedi'i dyfnu, Gwartheg tew, Arwerthiant peiriannau hynafol.**

Hefyd gyda gwerthiannau Pedigri a Chymdeithas cysylltwch â swyddfa'r farchnad i gael eich cyfeirio i'r arwerthwr priodol.

**Swyddfa'r Farchand 01824705000**
**Dydd Mawrth-**Wyn tew/'Hoggetts',Hen ddefaid,Gwartheg tew,Gwartheg dros 30 mis.
**Dydd Iau-**Gwartheg Stôr,Buchod a lloi,Defaid magu(tymhorol),Wyn benyw i fagu(tymhorol),Defaid cyfeb(tymhorol),Lloi,Lloi wedi'i dyfnu,Wyn Stôr,Cyplau(tymhorol),Cynnyrch
**Dydd Gwener**-Wyn tew/'Hoggetts',Hen ddefaid,Wyn Stôr,Môch Stôr(Gwener cyntaf o bob mis)

Fel sydd yn hysbus i rai ohonoch 'roedd 2020 i fod yn garreg filltir i Gwmni Arwerthwyr Ffermwyr Rhuthun wrth inni ddathlu 100 mlynedd o wasanaeth i'r gymdeithas leol ac ehangach. Yn anffodus gyda thoriad yr haint Covid-19 torwyd ar ein cynlluniau i ddathlu a chynnal gwahanol weithgareddau wrth inni ganolbwyntio ar redeg y farchnad, mor rhwydd a diogel a phosibl, oddi tan amgylchaidau anodd iawn.
Sut bynnag, cadwch lygad ar y gwefanau cymdeithasol,papurau newydd ac ein gwefan (www.ruthinfarmers.co.uk) wrth inni edrych ymlaen i ddathlu'r 100 mlynedd rhyw dro'n y dyfodol pan fydd y feirws wedi marw allan.
Ac yn olaf rhaid talu diolchiadau i ddau a roddodd wasanaeth clodwiw iawn i'r cwmni am flynyddoedd.

Mae Emyr Lloyd wedi taro'r gafel am y tro olaf ac wedi penderfynnu ymddeol.
Bu Emyr yn arwerthwr yma am bron i hanner can' mlynedd, Mae ei ymroddiad dros y blynyddoedd wedi bod yn amrhisiadwy. Dymunwn pob iechyd ac ymddeoliad hir a hapus iddo. Diolch yn fawr Emyr.

Hefyd ar ol dros 40 o flynyddoedd mae John Dryhurst Roberts wedi penderfynnu rhoi'r gorau i'w swydd fel graddwr yma yn Rhuthun. Dros y blynyddoedd sicrhaodd John fod ansawdd cyson i'r wyn. Yn yr un modd dymunwn pob iechyd ac ymddeoliad hir a hapus i John. Diolch yn fawr am eich gwasanaeth John.

Felly ar ran pob un ohonom yma yn Arwethiant Ffermwyr Rhuthun, Diolch eto am eich cefnogaeth barhaus a'ch cydweithrediad, mi welwn ni chi gyd yn fuan ym mwrlwm y farchnad!



